**CYFARFOD Y CYNGOR** **16eg TACHWEDD 2016**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

## 2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 19eg Hydref 2016 | - | Rhifau Cofnod 58-69 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 19eg Hydref 2016 | - | Rhifau Cofnod 26-29 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 2il Tachwedd 2016 | - | Rhifau Cofnod 30 - 33 |

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 2il Tachwedd 2016 | - | Rhifau Cofnod 56 - 67 |

## 3. CYFLWYNIAD: GIDEONS INTERNATIONAL I'R MAER

Derbyn cynrychiolydd o Gideon's International (Cangen Clwyd), i gyflwyno copi o'r Ysgrythur i'r Maer.

## 4. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

## 5. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – TALKING POINT

Ymhellach i gofnod rhif 103 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6ed Ebrill 2016, derbyn cyflwyniad gan Mr Jason Haycock, mewn perthynas â menter Talking Point.

## 6. CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Penderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

## 7. CAIS I DDEFNYDDIO SIAMBR Y CYNGOR

Penderfynu ar gais (copi'n amgaeëdig) gan Gyngor Sir Ddinbych i ddefnyddio'r Siambr ar gyfer cyfarfod o Fwrdd Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl, i'w gynnal ar 9fed Mawrth 2017, oherwydd nad yw ystafelloedd cyfarfod Tŷ Russell ar gael ar y dyddiad hwnnw.

## 8. EITEMAU AELODAU

(i) Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE – Rhoi adroddiad cynnydd i'r Cyngor ar brosiectau Cynllun Tref ac Ardal a gymeradwywyd a gofyn am farn yr Aelodau mewn perthynas ag oriau goleuo llochesi newydd y promenâd.

(ii) Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE – Gofyn am gefnogaeth i wneud cyflwyniadau i Gyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â'r posibilrwydd o adleoli'r cyfleusterau camfan awyr agored.

## 9. EITEMAU ER GWYBODAETH

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

## 10. HOLI AC ATEB

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

## 11. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

## 12. CYTUNDEB TELEDU CYLCH CYFYNG

Derbyn adroddiad cyfrinachol gan gynrychiolydd penodedig y Cyngor Tref ar y bartneriaeth teledu cylch cyfyng (copi'n amgaeëdig).

## 13. CYD-GYFARFOD GRŴP AELODAU ARDAL / CYNGOR TREF Y RHYL

Penderfynu ar safiad / gweithredoedd y Cyngor Tref yn deillio o'r cyd-gyfarfod uchod a gynhaliwyd ar 2il Tachwedd 2016.

## 14. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

## 15. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.